| Llinynnau | Elfennau | Dyma'r sgiliau rydym yn ymarfer gyda phlant Blwyddyn Un |
|---|---|---|
| **Datblygu ymresymu rhifyddol** | **Adnabod prosesau a chysylltiadau** | • trosglwyddo sgiliau mathemategol i weithgareddau chwarae a'r ystafell ddosbarth<br>• adnabod camau i gwblhau'r dasg neu gyrraedd datrysiad<br>• dewis mathemateg a thechnegau priodol i'w defnyddio<br>• dewis a defnyddio ffeithiau rhif a strategaethau meddwl perthnasol<br>• dewis cyfarpar ac adnoddau priodol<br>• defnyddio gwybodaeth a phrofiad ymarferol yn sail wrth amcangyfrif |
| | **Cynrychioli a chyfathrebu** | • defnyddio ieithwedd arferol ac ieithwedd fathemategol i siarad am eu syniadau a'u dewisiadau eu hunain<br>• cyflwyno'u gwaith ar lafar, ar ffurf llun ac yn ysgrifenedig, a defnyddio amrywiaeth o ffyrdd i gyflwyno data a gasglwyd<br>• dylunio a mireinio dulliau anffurfiol, personol o gofnodi, gan symud tuag at ddefnyddio geiriau a symbolau mewn brawddegau rhif |
| | **Adolygu** | • defnyddio strategaethau gwirio i benderfynu a yw atebion yn rhesymol<br>• dehongli atebion yng nghyd-destun y broblem ac ystyried a yw atebion yn synhwyrol<br>• dehongli gwybodaeth a gyflwynir ar ffurf siartiau a diagramau a dod i gasgliadau priodol |
| **Defnyddio sgiliau rhif** | **Defnyddio ffeithiau rhif a'r berthynas rhwng rhifau** | • cyfrif hyd at 20 o wrthrychau'n ddibynadwy<br>• darllen ac ysgrifennu rhifau hyd at 20 o leiaf<br>• cymharu a rhoi rhifau yn eu trefn hyd at 20 o leiaf<br>• defnyddio ffeithiau rhif o fewn 10, h.y.:<br>– dyblu a haneru, e.e. 4 + 4<br>– bondiau o 10, e.e. 6 + 4 |
| | **Ffracsiynau, degolion, canrannau a chymhareb** | • canfod haneri mewn sefyllfaoedd ymarferol |
| | **Cyfrifo gan ddefnyddio dulliau meddwl ac ysgrifenedig** | • adio a thynnu rhifau sy'n cynnwys hyd at 10 gwrthrych<br>• defnyddio strategaethau 'cyfrif ymlaen' i adio 2 gasgliad, gan ddechrau gyda'r rhif mwyaf, e.e. 8 + 5 |
| | **Amcangyfrif a gwirio** | • cynnig amcangyfrif synhwyrol ar gyfer nifer o wrthrychau y gellir eu gwirio drwy gyfrif |

| | | |
|---|---|---|
| | **Rheoli arian** | • defnyddio gwahanol gyfuniadau o arian i dalu am eitemau hyd at 20c<br>• canfod beth yw'r cyfanswm a rhoi newid o 10c |
| **Defnyddio sgiliau mesur** | **Hyd, pwysau/mas, cynhwysedd** | • defnyddio unedau ansafonol i fesur:<br>– hyd, uchder a phellter<br>– pwysau/màs<br>– cynhwysedd |
| | **Amser** | • defnyddio unedau amser safonol i ddarllen faint o'r gloch yw hi ar glociau analog a chlociau digidol 12 awr<br>• defnyddio'r cysyniad o amser mewn perthynas a'u gweithgareddau beunyddiol ac wythnosol a thymhorau'r flwyddyn |
| | **Tymheredd** | • defnyddio geiriau disgrifio ar gyfer ystod o dymheredd, e.e. oerach/poethach |
| | **Arwynebedd a chyfaint**<br>**Ongl a safle** | • gwneud troeon cyflawn a hanner tro |
| **Defnyddio sgiliau data** | **Casglu a chofnodi data**<br>**Cyflwyno a dadansoddi data**<br>**Dehongli canlyniadau** | • didoli a dosbarthu gwrthrychau drwy ddefnyddio mwy nag un maen prawf<br>• casglu gwybodaeth drwy bleidleisio neu ddidoli a chyflwyno ar ffurf lluniau,<br>gwrthrychau neu luniadau<br>• llunio rhestrau a thablau yn seiliedig ar y data a gasglwyd. |